

Athro/Athrawes Saesneg

School:	Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Posted:	13th May 2019
Location:	Gogledd Llandaf, Cardiff	Expires:	20th May 2019
Contract Term:	Permanent	Start Date:	03:05 PM 2nd September 2019
Salary:	Prif Raddfa	Job ID:	1047539
Hours:	Full Time	Job Reference:	Eteach/Saesneg5



Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Athrawes/Athro Saesneg

Rydym yn chwilio am athro/athrawes Saesneg ymroddedig a chymwys i ymgymryd â swydd llawn amser o fis Medi 2019.

Gwahoddir ceisiadau gan raddedigion deinamig â chymwysterau da i ymuno â'n tîm Saesneg brwdfrydig, ymroddgar. Bydd gofyn i ymgeisydd addas ddysgu Saesneg ar bob lefel, o Gyfnod Allweddol 3 hyd at Safon Uwch. Croesewir ceisiadau gan athrawon profiadol a newydd gymhwyso. Mae'r swydd yn cynnig y cyfle i gyfrannu at ddatblygiadau cyffrous o fewn yr adran lewyrchus hon.

Mae'r adran Saesneg wedi dathlu ei chanlyniadau gorau llynedd gyda 90% o'n disgyblion yn ennill A*-C yn TGAU Saesneg laith a 95% yn llenyddiaeth Saesneg. Rydym yn falch hefyd o'r niferoedd sylweddol sy'n astudio'r pwnc yn y chweched dosbarth. Cyniga'r adran amrywiaeth o brofiadau i'n disgyblion, ym mhob cyfnod allweddol, gan gynnwys timau dadlau felly byddai'r diddordeb i gyfrannu a datblygu gweithgareddau o fewn yr adran yn fanteisiol.

Gweledigaeth yr adran yw cyfoethogi profiadau addysgol ein disgyblion ac rydym yn meddu ar y safonau uchaf. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymwybyddiaeth o addysgeg a dulliau i hybu ac ysbrydoli ein disgyblion. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus rannu'r weledigaeth hon trwy rannu ei angerdd am y pwnc a thuag at addysgu gyda'r disgyblion a'r adran. Dylid cysylltu a Mr Dyfrig Rees er mwyn gofyn am ffurflen gais neu gewch lawrlwytho a defnyddio'r ffurflen gais ddigidol isod. Gellir derbyn manylion pellach drwy'r ysgol wrth Mr Dyfrig Rees, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2JL. Cynhelir cyfweiliadau yn dilyn y dyddiad cau. Rydym yn rhwymedig i gyfle cyfartal.

Safeguarding Statement:

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf is committed to safeguarding and promoting the welfare of children, young people and vulnerable adults and expects all staff and volunteers to share this commitment. We particularly welcome applications from under represented groups including ethnicity, gender, transgender, age, disability, sexual orientation or religion.